3.01DHD9

**LC202**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986. Mae rheoliadau 1997 yn darparu ar gyfer cynllun i'r Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) dalu â thalebau. Mae Rheoliadau 1986 yn darparu ar gyfer y trefniadau ar gyfer gwasanaethau offthalmig cyffredinol o dan yr NHS.

Mae'r Rheoliadau i fynd yn eu blaen drwy'r weithdrefn gyflymach yn y Cyfarfod Llawn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol – yr 8fed paragraff**

Er mwyn cadw cysondeb â'r paragraffau eraill dylai "1986 regulations" fod yn "1986 Regulations".

**Rheoliad 6**

Awgrymir y byddai "Darpariaeth drosiannol" neu rywbeth tebyg yn bennawd gwell.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

20 Mawrth 2001